

Gyrfaoedd sy'n ysbrydoli – Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2019 Dydd Gwener 8 Mawrth 1-4pm, Pontio PL5



Bob blwyddyn mae Diwrnod Rhyngwladol Menywod (8fed Mawrth) yn cael ei ddathlu ledled y byd i ddathlu llwyddiannau merched, ac mae Prifysgol Bangor yn ymuno â'r dathliadau gyda digwyddiad cyffrous yn amlinellu gyrfaoedd a chyfraniadau merched mewn swyddi arweiniol, yn ag o gwmpas Bangor, yn ogystal â darparu fforwm ar draws y Brifysgol i drafod materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb rhywiol sy'n effeithio ar yr holl staff a myfyrwyr.

Bydd ein siaradwyr yn gweithio yn y sectorau cyhoeddus a preifat a byddant yn adlewyrchu ar ei dewisiadau gyrfaol, ei llwybrau gyrfaol, ei phrofiadau, eu gobeithion a'r sialensiau a wynebwyd ar y ffordd.

Rydym yn annog a gwahodd holl staff a myfyrwyr i ymuno a ni ar gyfer beth fydd yn brynhawn diddorol, craff ac ysbrydoledig.

Mae ein panel yn cynnwys:

- **Siân Gwenllian** - Aelod Cynulliad Arfon
- **Sue Green** - Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Gweithredol, Betsi Cadwaladr
- **Frankie Hobro** - perchennog a chyfarwyddwr Sw Môr Môn
- **Yr Athro Jo Rycroft-Malone**, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Effaith, Prifysgol Bangor
- **Yr Athro Carol Tully** - Dirprwy Is-Ganghellor Myfyrwyr, Prifysgol Bangor
- **Yr Athro David Thomas** – Pennaeth Ysgol Gwyddorau Eigion, Prifysgol Bangor; Cyfarwyddwr Sêr Cymru, Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd
- **Dr Noemi Mantovan**, Uwch Ddarlithydd, Ysgol Busnes Bangor, Prifysgol Bangor

RHAGLEN

Croeso gan yr Is-Ganghellor Dros Dro (Yr Athro Graham Upton) ac yr Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Effaith (Yr Athro Jo Rycroft-Malone)

1pm	Ymlaen at gyfartaledd rhywedd yng Nghymru – Siân Gwenllian, Aelod Cynulliad Arfon
1:30pm	Merched yn y farchnad lafur – Dr Noemi Mantovan, Ysgol Busnes Bangor
1:45pm	Dim cyfyngiadau – Sue Green, Betsi Cadwaladr
2pm	Te a choffi (CoWork, 5ed llawr, Pontio)
2:30pm	Merch sy'n mentro... – Frankie Hobro, Sw Môr Môn
2:45pm	Hwyluso newid cydraddoldeb yn y Gwyddorau Amgylcheddol – Yr Athro David Thomas, Ysgol Gwyddorau Eigion
3pm	Yn bendant gall y ferch hon o Fangor – Yr Athro Carol Tully, Prifysgol Bangor
3:15pm	Cwestiynau / trafodaeth panel
4pm	Gorffen

Os hoffech fynychu, ewch at yr [Amserlen Datblygu Staff](#) i gofrestru.

EIN CYFLWYNWYR:



Yr Athro Jo Rycroft-Malone - Athro Gweithredu a Gwasanaethau Ymchwil Iechyd a Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil ac Effaith ym Mhrifysgol Bangor.

Mae Jo wedi sefydlu enw da yn rhyngwladol ar gyfer ymchwil dulliau cymysg sy'n helpu i egluro a phontio'r bwloch rhwng ymarfer a thystiolaeth, ac wedi casglu corff o waith ymchwil a arweiniodd at gael ei rhestru gan Thomson Reuters fel un o ymchwilwyr a ddyfynnwyd mwyaf yn y byd (<http://highlycited.com/>) ac wedi ei galluogi i adeiladu rhaglen Ymchwil Gweithredu a gydnabyddir yn rhyngwladol ym Mhrifysgol Bangor - implement@Bangor.

Mae Jo hefyd yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gwasanaethau Iechyd a Rhaglen Trosglwyddo, Cadeirydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth (NICE) a'r Grŵp Gweithredu Strategol a Uwch Arweinydd Ymchwil ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal yng Nghymru. Mae Jo wedi bod yn ymgynghorydd ac yn aelod o nifer o 'melinau trafod' datblygu strategaeth a grwpiau ariannu, gan gynnwys y Prif Swyddog Meddygol (Lloegr), grŵp Agenda Ymchwil Effeithiolrwydd Clinigol a'r Sefydliadau Canada ar gyfer Ymchwil Iechyd (CRI).



Siân Gwenllïan - Aelod Cynulliad Arfon

Etholwyd Siân Gwenllïan i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2016. Mae hi'n cynrychioli etholaeth Arfon fel aelod o Blaid Cymru. Hi yw Ysgrifennydd Cabinet Cysgodol Plaid Cymru dros Addysg a'r Iaith Gymraeg, ac mae'n Ddirprwy Arweinydd y Grŵp Cynulliad (Polisi a Strategaeth.) Mae hi'n aelod o Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad ac mae wedi arwain yn flaenorol ar Gydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Blaid Cymru. Fe'i hetholwyd yn ddiweddar yn Gomisiynydd y Cynulliad ar gyfer Grŵp Plaid Cymru. Yn flaenorol bu'n gweithio fel newyddiadurwr, ac mae wedi ymgymryd â swyddi uwch yng Nghyngor Gwynedd.



Dr Noemi Mantovan - Uwch Ddarlithydd mewn Economeg, Ysgol Busnes Bangor, Prifysgol Bangor

Cafodd Noemi ei graddau BSc a Meistr mewn Economeg o Brifysgol La Sapienza yn Rhufain. Yna symudodd i'r DU, lle cwblhaodd ei PhD ym Mhrifysgol Durham yn 2012, gan ennill y wobwr am thesis PhD gorau'r flwyddyn. Ymunodd Noemi ag Ysgol Busnes Bangor yn 2011 fel Darlithydd mewn Economeg ac fe'i dyrchafwyd yn Uwch Ddarlithydd yn 2017.

Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar economeg wleidyddol ac economeg llafur, ac mae'n arbenigo mewn cyflenwad llafur benywaidd, ideoleg, pleidleisio, polisi ariannol a gwirfoddoli. Mae ei gwaith wedi'i gyhoeddi mewn sawl cyfnodolyn academaidd blaenllaw, gan gynnwys yr *Economic Journal*, *Public Administration Review* a'r *European Economic Review* ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu fel golygydd gwadd i rifyn arbennig o'r *European Economic Review* "Gender Differences in the Labour Market".



Sue Green - Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Gweithredol, Betsi Cadwaladr

Cyn ymuno â'r Bwrdd Iechyd ym mis Ebrill 2018, cyflogwyd Sue fel Cyfarwyddwr Materion Pobl a Chorfforaethol yn yr Aintree University Hospital NHS Foundation Trust ac mae ganddi brofiad helaeth ym maes adnoddau dynol yn y sector cyhoeddus ehangach a'r GIG.

Dechreuodd Sue ar ei gyrfa ym 1986 pan ymunodd ag Adran Personél Cyngor Wirral, gan ennill CIPD Ôl-raddedig ym 1992. Yna symudodd i addysg uwch yn 2000 a chael swydd Dirprwy Gyfarwyddwr Personél ym Mhrifysgol Lerpwl cyn ymuno â'r GIG yn 2003 fel Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr Project i'r Foundation Trust. Wedyn penodwyd Sue yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol yn y Wirral University Teaching Hospital NHS Foundation Trust, lle bu am chwe blynedd.



Frankie Hobro - Perchennog a chyfarwyddwr Sw Môr Môn

Mae gan Frankie Hobro, Cyfarwyddwr a Pherchennog Sw Môr Môn, hanes maith o weithio dan amodau anodd dramor ar brojectau cadwraeth gyda rhywogaethau sydd dan fygythiad difrifol. Mae wedi gweithio mewn llawer o wledydd, a hynny mewn amgylcheddau tir a môr, gan arbenigo mewn gwarchodfeydd natur ar ynysoedd a rheoli rhywogaethau sydd dan fygythiad.

Mae Frankie wedi bod yn lladmerydd brwd bob amser dros gadwraeth, yn arbennig cadwraeth môr a rhywogaethau sydd dan fygythiad, ac mae wedi dal llawer swydd yn ymwneud â darlithio a dysgu bioleg ac ecoleg môr amgylcheddol a chadwraeth i wahanol lefelau ac oedrannau, mewn gwledydd sy'n datblygu a mannau eraill.

Ar ôl treulio llawer o'i phlentyndod yng Ngogledd Cymru ac ar Ynys Môn, dychwelodd Frankie i wneud astudiaethau ôl-radd ym Mhrifysgol Bangor. Yna, ymgartrefodd ar Ynys Môn 12 mlynedd yn ôl pan brynodd Sw Môr Môn, gan ddod yn unig berchen a chyfarwyddwr y busnes yn 2013.

Mae Frankie hefyd yn Siaradwr a Model Rôl

Ysbrydoledig Syniadau Mawr Cymruac yn mynd fewn i ysgolion a cholegau i ddysgu sgiliau busnes a mentergarwch, ac i annog mwy o ferched i mewn i wyddoniaeth a busnes.



Yr Athro David Thomas - Pennaeth Ysgol Gwyddorau Eigion, Prifysgol Bangor; Cyfarwyddwr Sêr Cymru, Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd

David Thomas yw Cyfarwyddwr Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol i Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd Sêr Cymru. Mae wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, lle mae hefyd yn Gadeirydd Bioleg Môr ac yn Bennaeth yr Ysgol Gwyddorau'r Eigion. Mae'n aelod o Fwrdd Gwyddoniaeth NERC ac yn gadeirydd Grŵp Ymgynghorol Rhaglen NERC *The Changing Arctic Ocean Programme*. Bu hefyd yn gadeirydd Grŵp Ymgynghorol Rhaglen NERC *The Arctic Research Programme*.

Bu'n astudio a gwneud ei PhD yn Lerpwl lle astudiodd ffisioleg gwymon, cyn treulio 7 mlynedd yn yr Almaen yn gweithio ar brojectau eigionegol yn yr Antarctig, yr Arctig a'r Môr Coch. Dychwelodd i'r DU yn 1996 pan ddechreuodd ym Mhrifysgol Bangor a sefydlodd grwpiau'n gweithio ar fiogeocemeg rhew môr yr Antarctig a'r Arctig, cysylltiadau rhwng y tir a'r môr, a chynhyrchu biodanwydd o fiodaweithyddion algaid. Rhwng 2009 a 2013 roedd yn dal cadair athro nodedig Academi Ffindir a threuliodd ddwy flynedd a hanner yn byw yn Helsinki tra'n

gweithio yn Sefydliad Amgylchedd y Ffindir (SYKE), lle mae'n parhau i ddal cadair ymchwil. Yn 2013, roedd hefyd yn dal cadair athro mewn Bioleg Môr yr Arctig ym Mhrifysgol Aarhus, Denmarc.

Yn ystod ei gyfnod yn y Ffindir a Denmarc, cafodd brofiad o ddau ddiwylliant gwahanol iawn i'r DU o ran cydraddoldeb rhyw yn y gweithle a chydbwysedd bywyd a gwaith yn gyffredinol. Dychwelodd David i'r DU yn benderfynol i hwyluso gymaint o newid ag y bo modd. O dan arweiniad David, enillodd yr Ysgol Gwyddorau'r Eigion wobwr efydd siarter Cydraddoldeb Rhyw Athena SWAN yn ddiweddar.



Yr Athro Carol Tully - Dirprwy Is-Ganghellor Myfyrwyr, Prifysgol Bangor

Mae'r Athro Carol Tully yn Ddirprwy Is-ganghellor (Myfyrwyr) ac Athro Almaeneg ym Mhrifysgol Bangor. Astudiodd Almaeneg a Sbaeneg yn Strathclyde a chwblhaodd ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Queen Mary, Llundain. Ers hynny, mae wedi dod yn adnabyddus yn rhyngwladol fel ysgolhaig ym maes cyfnewid diwylliannol yn Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr Almaen a Sbaen. Mae wedi cyhoeddi nifer o lyfrau, golygiadau ysgolheigaidd, cyfieithiadau ac erthyglau mewn cyfnodolion. Mae'n parhau i fod yn ymchwilydd cynhyrchiol ac i oruchwyllo ôl-raddedigion ac mae'n brif ymchwilydd ar y project Teithwyr Ewropeaidd i Gymru sydd wedi ei ariannu gan AHRC (etw.bangor.ac.uk). Etholwyd yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2016.

Ymgwymerodd â'i swydd Dirprwy Is-ganghellor Myfyrwyr yn 2011 ac mae ar hyn o bryd yn gyfrifol am nifer o feysydd ar draws y brifysgol yn cynnwys Gwasanaethau Myfyrwyr ac Ennyn Cyfraniad Myfyrwyr.